Ffurflen gais enghreifftiol i'w llenwi gan yr ymgeisydd

CAIS I GOFRESTRU NEU I GYMERADWYO SAFLE O DAN REOLIAD HYLENDID BWYD ANIFEILIAID YR UE (183/2005)

At (Awdurdod Gorfodi):	

Rwy'n gwneud cais i **gofrestru / gymeradwyo** (dileër fel y bo'n briodol) y safle a ganlyn o dan y ddeddfwriaeth uchod. Mae'r wybodaeth ofynnol wedi'i nodi isod.

1. Enw neu enw busnes y busnes bwyd anifeiliaid y mae'r cais yn berthnasol iddo

Enw:	
Enw busnes:	

2. Cyfeiriad a manylion perthnasol y safle lle mae'r gweithgarwch i'w gofrestru neu'i gymeradwyo'n cael ei gyflawni, neu lle caiff ei gyflawni.

Cyfeiriad:			
Rhif ffôn:		Rhif ffacs:	
E-bost:		Gwefan:	

3. Y gweithgaredd neu'r gweithgareddau a gyflawnir ar y safle (defnyddiwch y cod a'r disgrifiadau o weithgareddau sydd ar gael yn yr Atodiad)

Cod:		Gweithgaredd:	

4. Manylion yr ymgeisydd

Enw:	
Cyfeiriad (os yw'n wahanol i'r cyfeiriad yn 2 uchod):	

Llofnod yr ymgeisydd:		Dyddiad:	

Er gwybodaeth i'r ymgeiswyr: O dan erthyglau 9 ac 19 Rheoliad 183/2005 ar hylendid bwyd anifeiliaid, mae'n ofynnol casglu a choladu'r wybodaeth uchod gan weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid a darparu manylion am fusnesau bwyd anifeiliaid i unigolion sy'n gwneud ymholiadau ynghylch statws cofrestru busnesau o'r fath. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu'r wybodaeth hon ag asiantaethau eraill y llywodraeth sy'n gyfrifol am reolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid, e.e. Tîm Arolygu ac Ymchwilio'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol.

Hefyd, rhaid i weithredwyr busnesau bwyd roi gwybod i'r awdurdod gorfodi perthnasol am unrhyw newid i enw, enw busnes, cyfeiriad, gweithgarwch neu berchenogaeth safle busnes bwyd anifeiliaid y maen nhw'n ei reoli, neu os bydd safle o'r fath yn cau.

RHEOLIAD HYLENDID BWYD ANIFEILIAID YR UE (183/2005) – Gweithgareddau i'w cymeradwyo a'u cofrestru

Mae cyfeiriadau at "weithgynhyrchu a/neu osod ar y farchnad" yn cyfeirio at weithgareddau sy'n digwydd ar (a) safleoedd sy'n gweithgynhyrchu ac yn gosod cynhyrchion o'r fath ar y farchnad (gwerthu) a (b) safleoedd nad ydyn nhw'n gweithgynhyrchu cynhyrchion, ond sy'n eu prynu a'u gwerthu.

Cewch hyd i restr lawn o'r ychwanegion bwyd anifeiliaid a ganiateir a'r Rheoliadau sy'n eu caniatáu ar Gofrestr yr UE o ychwanegion bwyd anifeiliaid, sydd ar gael yn http://ec.europa.eu/food/food/animalnutrition/feedadditives/index_en.htm

Sylwch nad yw'r enghreifftiau a roddir wrth ymyl pob cod ym mhedwaredd golofn y tabl isod yn gyflawn.

A. Gweithgareddau i'w cymeradwyo

Cod	***Disgrifiad o'r gweithgaredd***	***Nodiadau***	***Enghreifftiau o safleoedd busnesau bwyd anifeiliaid sy'n debygol o gyflawni'r gweithgaredd***
A1	Gweithgynhyrchu a/neu osod ychwanegion maethol ar y farchnad.	Mae hyn yn cynnwys fitaminau, pro-fitaminau a sylweddau wedi'u diffinio'n gemegol sy'n cael effaith o'r fath; cyfansoddion elfennau hybrin; asidau amino, eu halwynau a'u hanalogau, ac wrea a'i ddeilliadau, yn unol ag Atodiad I Rheoliad 1831/2003.	Gweithgynhyrchwyr ychwanegion bwyd anifeiliaid sy'n cynhyrchu ychwanegion maethol. Busnesau sy'n gwerthu (ond nad ydynt yn gweithgynhyrchu) ychwanegion o'r fath.
A2	Gweithgynhyrchu a/neu osod ychwanegion sootechnegol ar y farchnad: sylweddau sy'n hybu treuliadwyedd, sylweddau sy'n sefydlogi fflora'r perfedd a sylweddau sy'n cael effaith ffafriol ar yr amgylchedd.	Mae hyn yn cynnwys ensymau a micro-organebau.	Gweithgynhyrchwyr ychwanegion bwyd anifeiliaid sy'n cynhyrchu ychwanegion sootechnegol. Busnesau sy'n gwerthu (ond nad ydynt yn gweithgynhyrchu) ychwanegion o'r fath.
A3	Gweithgynhyrchu a/neu osod ar y farchnad ychwanegion gwrthocsidydd y mae lefelau uchaf a ganiateir mewn bwyd anifeiliaid wedi'u pennu ar eu	Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, gall gynnwys galad propyl, galad octyl, galad dodecyl, hydrocsianisol bwtyleiddiedig (BHA), hydrocsitoluen bwtyleiddiedig (BHT),	Gweithgynhyrchwyr ychwanegion bwyd anifeiliaid sy'n cynhyrchu ychwanegion gwrthocsidydd y mae lefelau uchaf a ganiateir wedi'u pennu ar eu cyfer.

	cyfer yn Rheoliad 1831/2003 yr UE.	ethocsicwin, fel y'u caniateir o dan Reoliad 1831/2003.	Busnesau sy'n gwerthu (ond nad ydynt yn gweithgynhyrchu) ychwanegion o'r fath.
A4	Gweithgynhyrchu a/neu osod ychwanegion lliwyddion ar y farchnad: carotenoidau a santhoffylau.	Mae cyfraddau cynnwys uchaf wedi'u pennu ar gyfer y cynhyrchion hyn yn unol â Rheoliad 1831/2003.	Gweithgynhyrchwyr ychwanegion bwyd anifeiliaid sy'n cynhyrchu carotenoidau neu santhoffylau (fel canthacsanthin). Busnesau sy'n gwerthu (ond nad ydynt yn gweithgynhyrchu) ychwanegion o'r fath.
A5	Gweithgynhyrchu a/neu osod proteinau o ficro-organebau sy'n perthyn i grwpiau bacteria, burum, algae a ffwng is ar y farchnad.	Yn flaenorol, roedd Cyfarwyddeb 82/471/EEC y Cyngor ar Gynhyrchion Penodol (Bioproteinau) yn berthnasol i'r cynhyrchion hyn, ond cafodd ei dirymu. Erbyn hyn, maent yn cael eu cyfrif yn ddeunyddiau bwyd anifeiliaid, felly ni ddylid defnyddio'r cod hwn bellach.	
A6	Gweithgynhyrchu a/neu osod cyd-gynhyrchion gweithgynhyrchu asidau amino trwy eplesu ar y farchnad.	Yn flaenorol, roedd Cyfarwyddeb 82/471/EEC y Cyngor ar Gynhyrchion Penodol (Bioproteinau) yn berthnasol i'r cynhyrchion hyn, ond cafodd ei dirymu. Erbyn hyn, maent yn cael eu cyfrif yn ddeunyddiau bwyd anifeiliaid, felly ni ddylid defnyddio'r cod hwn bellach.	
A8	Gweithgynhyrchu a/neu osod rhag-gymysgeddau sy'n cynnwys copr a seleniwm ar y farchnad.	Mae cyfraddau cynnwys uchaf wedi'u pennu ar gyfer y cynhyrchion hyn yn unol â Rheoliad 1831/2003.	Gweithgynhyrchwyr ychwanegion bwyd anifeiliaid sy'n cynhyrchu ychwanegion copr neu seleniwm. Busnesau sy'n gwerthu (ond nad ydynt yn gweithgynhyrchu) rhag-gymysgeddau sy'n cynnwys ychwanegion copr neu

			seleniwm.

R. Gweithgareddau i'w cofrestru

Cod	*Disgrifiad o'r gweithgaredd*	*Nodiadau*	*Enghreifftiau o safleoedd busnesau bwyd anifeiliaid sy'n debygol o gyflawni'r gweithgaredd*
R1	Gweithgynhyrchu a/neu osod ychwanegion bwyd anifeiliaid (ac eithrio'r rhai sy'n destun cymeradwyaeth) ar y farchnad.	Mae hyn yn cynnwys cyffeithyddion, emylsyddion, sefydlogion, tewychwyr, sylweddau gelio, rhwymwyr, sylweddau gwrthdalpio, rheoleiddwyr asidedd, gwrthocsidau (nad ydynt yn destun lefelau uchaf a ganiateir), cyfryngau silwair, annatureiddwyr, sylweddau i reoli halogiad radioniwclid, lliwyddion (ac eithrio carotenoidau a santhoffylau).	Gweithgynhyrchwyr ychwanegion bwyd anifeiliaid sy'n cynhyrchu ychwanegion technolegol neu synhwyraidd. Busnesau sy'n gwerthu (ond nad ydynt yn gweithgynhyrchu) ychwanegion bwyd anifeiliaid technolegol neu synhwyraidd.
R2	Gweithgynhyrchu a/neu osod rhag-gymysgeddau (ac eithrio'r rhai sy'n destun cymeradwyaeth) ar y farchnad.	Mae hyn yn cynnwys rhag-gymysgeddau sy'n cynnwys unrhyw ychwanegyn bwyd anifeiliaid ac eithrio fitaminau A a D a chopr a seleniwm.	Busnesau bwyd anifeiliaid sy'n cynhyrchu neu'n gwerthu rhag-gymysgeddau, ac eithrio'r rheini sy'n cynnwys fitaminau A a D, copr a seleniwm. Busnesau sy'n gwerthu (ond nad ydynt yn gweithgynhyrchu) rhag-gymysgeddau o'r fath.
R3	Gweithgynhyrchu a/neu osod bioproteinau nad ydynt yn destun cymeradwyaeth ar y farchnad.	Mae hyn yn cynnwys, halwynau amoniwm a burum marw penodol a dyfwyd ar swbstrad sy'n dod o anifail/llysieuyn.	Busnesau sy'n gweithgynhyrchu ac yn gwerthu cynnrych o'r fath, a busnesau nad ydynt yn eu gweinthygynhrychu ond sy'n prynu ac yn gwerthu'r cynnyrch hyn.
R4	Gweithgynhyrchu bwydydd anifeiliaid cyfansawdd (ac eithrio'r rhai sy'n destun cymeradwyaeth).	Mae hyn yn cynnwys gweithgynhyrchu bwydydd anifeiliaid cyflawn a chyflenwol, gydag ychwanegion neu hebddynt.	Busnesau sy'n gweithgynhyrchu bwydydd anifeiliaid cyflawn a chyflenwol gydag ychwanegion neu hebddynt.
R5	Gosod bwydydd anifeiliaid		Sefydliadau sy'n ymwneud â phrynu a

	cyfansawdd ar y farchnad.		gwerthu bwydydd anifeiliaid cyfansawdd, ond nad ydynt yn gweithgynhyrchu bwydydd anifeiliaid o'r fath. Mae hyn yn cynnwys busnesau nad ydynt yn dal gafael ar unrhyw fwydydd anifeiliaid (e.e. mewnforwyr).
R6	Gweithgynhyrchu bwydydd anifeiliaid anwes.	Mae hyn yn cynnwys gweithgynhyrchu bwydydd anifeiliaid cyflawn a chyflenwol, gydag ychwanegion neu hebddynt.	Busnesau gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes sy'n gweithgynhyrchu bwydydd cyflawn a chyflenwol gydag ychwanegion neu hebddynt.
R7	Gweithgynhyrchu a/neu osod deunyddiau bwyd anifeiliaid ar y farchnad.	Deunyddiau a chynhyrchion bwyd anifeiliaid y gellir eu bwydo'n unigol i anifeiliaid neu'u defnyddio fel cynhwysion bwydydd anifeiliaid cyfansawdd.	Busnesau sy'n cynhyrchu neu'n gweithgynhyrchu deunyddiau un cynhwysyn (e.e. grawn neu gynhyrchion sy'n seiliedig ar rawn, olewon a brasterau) i'w defnyddio mewn bwyd anifeiliaid. Canghennau archfarchnadoedd sy'n ymwneud â throsglwyddo bwydydd dynol sy'n weddill i'r gadwyn bwyd anifeiliaid.
R8	Cludo bwyd anifeiliaid a chynhyrchion bwyd anifeiliaid.	Mae'r drefn cymeradwyo/cofrestru safleoedd gweithgynhyrchwyr yn cwmpasu cludo bwyd anifeiliaid a chynhyrchion bwyd anifeiliaid yng ngherbydau'r gweithgynhyrchwyr eu hunain.	Safleoedd busnesau sy'n cludo deunyddiau bwyd anifeiliaid, bwyd anifeiliaid cyfansawdd, ychwanegion bwyd anifeiliaid a rhag-gymysgeddau.
R9	Storio bwyd anifeiliaid a chynhyrchion bwyd anifeiliaid.	Dim ond yn cwmpasu safleoedd nad ydynt wedi'u cwmpasu gan weithgaredd cymeradwyo/cofrestru arall sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu neu osod y cynhyrchion dan sylw ar y farchnad. *Mewn geiriau eraill, nid yw'n cynnwys cyfleusterau storio ar safle gweithgynhyrchwr neu gludwr.*	Safleoedd storio bwyd anifeiliaid.

R10 (Ffermydd)	Cymysgu bwyd anifeiliaid ar ffermydd gydag ychwanegion a rhag-gymysgeddau.	Roedd gofyn cofrestru'r gweithgaredd hwn o dan ddeddfwriaeth flaenorol (Cyfarwyddeb 95/69 y CE fel y'i gweithredwyd gan Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr) 1999).	Ffermwyr sy'n prynu ychwanegion a chynhyrchion wedi'u rhag-gymysgu (h.y. heb eu cynnwys mewn bwyd anifeiliaid cyfansawdd) a'u cymysgu â bwydydd anifeiliaid (porthiant, silwair, gwywair, grawn ac ati). Gall ychwanegion a rhag-gymysgeddau gynnwys fitaminau, elfennau hybrin (e.e. copr, sinc), cyffeithyddion (e.e. asid proprionig) ac wrea.
R11 (Ffermydd)	Cymysgu bwyd anifeiliaid ar ffermydd gyda bwydydd anifeiliaid sy'n cynnwys ychwanegion.	Roedd gofyn cofrestru'r gweithgaredd hwn o dan ddeddfwriaeth flaenorol (Cyfarwyddeb 95/69 y CE fel y'i gweithredwyd gan Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr) 1999).	Ffermwyr sy'n cymysgu'u bwydydd anifeiliaid eu hunain ar eu ffermydd, gan ddefnyddio bwydydd anifeiliaid cyfansawdd wedi'u prynu sy'n cynnwys ychwanegion fel fitaminau, elfennau hybrin, ac ati.
R12	Busnesau bwyd sy'n gwerthu cyd-gynhyrchion y diwydiant bwyd a ddefnyddir fel deunyddiau bwyd anifeiliaid.	Mae hyn yn cynnwys gwerthu deunyddiau bwyd anifeiliaid a gynhyrchwyd drwy'r broses gweithgynhyrchu bwyd a diod (e.e. bran gwenith a grawn bragu).	Bragwyr, distyllwyr, gweithgynhyrchwyr biodanwydd, llaethdai a gweithgynhyrchwyr bwyd.
R13 (Ffermydd)	Ffermydd da byw (gan gynnwys ffermydd pysgod) nad ydynt yn cymysgu bwyd anifeiliaid neu'n cymysgu bwyd anifeiliaid heb ychwanegion.		Ffermwyr da byw. Gall hyn gynnwys ffermydd sy'n gwneud gwywair neu silwair (heb ddefnyddio ychwanegion). Gellir cynnwys ffermydd pysgod o dan y gweithgaredd hwn hefyd.
R14 (Ffermydd)	Ffermydd âr sy'n tyfu neu'n gwerthu cnydau ar gyfer bwyd		Ffermwyr âr, fel y rheini sy'n tyfu grawn, gwenith, barlys neu gnydau bwyd, e.e.

	anifeiliaid.		tatws, i'w defnyddio fel bwyd anifeiliaid.